

PN005 – HYSBYSIAD PREIFATRWYDD Y GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU A RENNIR

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ymrwmo i amddiffyn eich preifatrwydd pan fyddwch yn defnyddio ein gwasanaethau. Bwriad yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth i chi am y data rydym yn ei gadw amdanoch, sut rydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas â hynny a'r rhagofalon sy'n bodoli i'w amddiffyn.

Maes Gwasanaeth CBST:	Adnoddau
Maes Gwaith:	Refeniw a Budd-daliadau
Manylion Cyswllt:	Deb Smith 01495 742359
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Refeniw a Budd-daliadau

Rheolwr Data:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Os hoffech chi fynegi pryder ynglŷn â thrin eich data personol, cysylltwch â'r **Swyddog Diogelu Data** gan ddefnyddio'r manylion isod:

01495 762200
dpa@torfaen.gov.uk

Darperir gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau Cyngor Sir Fynwy gan y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a Rennir, a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. At y dibenion hyn mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rheolwr data at ddibenion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

1) Pwy sy'n darparu eich data i'r Cyngor?

Daw gwybodaeth bersonol oddi wrth y cwsmer, yn bennaf, ond gall ddod o ffynonellau eraill ar sail unigol e.e. Asiantau Gosod Tai, Cyfreithwyr, Landlordiaid, adrannau o fewn y Cyngor, neu unrhyw drydydd parti arall, yn enwedig pan fydd rhywun yn symud i mewn i eiddo neu'n gadael eiddo.

Ceir gwybodaeth hefyd gan gyrff eraill, i gynorthwyo gyda'r gwaith o brosesu ceisiadau am Fudd-dal Tai/Gostyngiadau i Dreth y Cyngor neu i weinyddu'r Dreth Gyngor/Tâl Ardrethi Annomestig yn ogystal ag atal twyll, fel a ganlyn:

- Adran Gwaith a Phensiynau
- Asiantaeth y Swyddfa Brisio
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- Y Ganolfan Byd Gwaith
- Y Gwasanaeth Pensiwn
- Asiantaethau Gwirio Credyd
- Asiantaethau Orlhain
- Awdurdodau lleol eraill
- Asiantau gorfodi at ddiben adennill dyledion
- Tracio, Orlhain ac Amddiffyn

2) **Sut mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth hon:**

Ffurflenni cais ar-lein ac ar bapur a hysbysiadau a gohebiaeth arall yn ymwneud â'ch cyfrif neu'ch hawliad. Daw'r wybodaeth bersonol oddi wrthyh chi'n bennaf, ond gall ddod o ffynonellau eraill, ar sail unigol, fel y nodir yn adran 1.

3) **Pa wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch?**

Er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau a'i rwymedigaethau, mae angen i ni gasglu gwybodaeth bersonol gennych, gan gynnwys;

- Enw
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt
- Gwybodaeth bersonol/ariannol arall, i gefnogi unrhyw gais am Ostyngiadau i Dreth y Cyngor/Ardrethi Annomestig neu asesu Budd-dal Tai/Gostyngiadau i Dreth y Cyngor neu gynnal asesiadau ariannol eraill
- Gwybodaeth feddygol gyfyngedig ar gyfer asesu rhyddhad a bregusrwydd

4) **Pam y mae'r Cyngor yn prosesu'ch data personol?**

O dan Erthygl 6 o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) y DU, y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

(e) Bod ei hangen arnom i gyflawni tasg gyhoeddus

- Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau statudol / cytundebol

Mae anfon biliau, casglu a gorfodi trethiant lleol a dyledion eraill neu fân ddyledion yn ogystal ag asesu a thalu Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor ac asesiadau ariannol eraill (gan gynnwys asesiadau ariannol Gofal Cymdeithasol, grantiau cyfleusterau anabl a Gorchmynion Gwarcheidiaeth a mabwysiadu) yn gyfrifoldebau statudol y Cyngor.

At hyn, fel rhan o'r ymateb i bandemig COVID-19, ac effaith y cynnydd mewn costau byw, mae'r cyngor yn gweinyddu taliadau hunanynysu, taliadau Prydau Ysgol am Ddim, cynllun cymorth costau byw, cynllun cymorth biliau ynni (cynllun amgen), Cynllun Taliadau Tanwydd Amgen (cronfa amgen) a Grant Gofalwyr Di-dâl ar ran Llywodraeth Cymru/Llywodraeth y DU.

Mae'n bwysig ein bod yn cadw gwybodaeth gywir a chyfoes amdanoch er mwyn darparu gwasanaethau priodol. Os bydd unrhyw rhai o'ch manylion yn newid, dywedwch wrthym cyn gynted â phosibl fel y gallwn ddiweddarw'ch cofnodion.

5) **Categoriâu data personol arbennig:**

Rydym yn casglu'r data categori arbennig a ganlyn

- Data'n ymwneud ag iechyd

Rydym yn casglu hwn dan Erthygl 9 GDPR y DU.

Nid ydym yn casglu unrhyw ddata troseddol.

6) **Pwy sydd â mynediad at eich data?**

Bydd eich data'n cael ei rannu'n fewnol yn unig gyda'r staff priodol lle mae'n angenrheidiol iddynt gyflawni'u rolau.

Efallai y bydd eich data hefyd yn cael ei rannu'n allanol gyda sefydliadau ar gyfer naill ai i storio gwybodaeth bersonol neu i'n helpu i gyflawni ein gwasanaethau ar eich cyfer. Gall y rhain gynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i:

- Gwasanaethau ac adrannau eraill y Cyngor;
- Cyrff sy'n ymchwilio i hawliadau neu'n eu prosesu;
- Asiantaethau'r sector cyhoeddus e.e. Yr Adran Gwaith a Phensiynau, CThEM, awdurdodau lleol eraill, Yr Asiantaeth Swyddfa Brisio, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU
- Cwmnïau yn y sector preifat a ddefnyddir gan yr awdurdod, fel asiantaethau gwirio credit, asiantaethau gorfodi
- Cyrff sy'n gweithio i atal twyll a chefnogi mentrau twyll cenedlaethol.

Wrth reoli'r pandemig covid-19 ac effaith y cynnydd mewn costau byw, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o grantiau/gynlluniau i gynorthwyo busnesau a thrigolion yn ystod y cyfnod anodd hwn. Gellir rhannu'r wybodaeth a gesglir fel rhan o'r grantiau/cynlluniau hyn gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Swyddfa Dwyll Genedlaethol.

Ar wahân i ble nodwyd yn flaenorol, nid ydym yn rhoi eich manylion i unrhyw drydydd parti oni bai bod angen i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Gallwn rhannu eich gwybodaeth i atal a chanfod twyll.

Ydy'r Data yn cael ei drosglwyddo allan o'r DU?

Na

7) Sut mae'r Cyngor yn cadw eich data yn ddiogel?

Mae gan y Cyngor bolisïau mewnol ar waith i sicrhau diogelwch y data y mae'n ei brosesu ac i sicrhau nad yw'n cael ei golli, ei ddifrodi'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio neu ddatgelu. Cyfyngir ar y mynediad i'r data hwn yn unol â pholisïau mewnol y Cyngor ac yn unol â GDPR y DU. Bydd y data yn cael ei storio'n ddiogel yn;

- System rheoli dogfennau a chymwysiadau TG diogel Refeniw a Budd-daliadau
- Swyddfeydd/Cabinetau Diogel

Lle bo'r Cyngor yn defnyddio trydydd parti i brosesu data personol ar ei ran, gwna hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae'n ddyletswydd ar y trydydd parti hefyd i sicrhau cyfrinachedd ac maent yn rhwym i weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch y data.

8) Am ba mor hir y mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Bydd y Cyngor yn dal eich data personol am y cyfnod sy'n angenrheidiol yn unig, a bydd yn dilyn safonau'r sefydliad a'r Awdurdod Lleol yn y maes hwn. Ar ddiwedd y cyfnod cadw bydd y Cyngor yn dinistrio neu'n gwaredu ar y data yn ddiogel yn unol ag amserlenni cadw.

9) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau wedi'u hawtomeiddio/proffilio gyda'ch data?

Na

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- Mynediad - cael copi o'ch data ar gais
- Cywiriad - mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- Gwrthwynebu, Cyfyngu neu Ddileu - mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- Hygludedd data – cael derbyn a/neu drosglwyddo data a roddwyd i'r Cyngor i sefydliadau eraill (mae hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau cyfyngedig)
- Tynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg (ble rhoddwyd caniatâd)
- Gwybod canlyniadau yn sgil methu â darparu data i'r Cyngor
- Gwybod am fodolaeth unrhyw benderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.
- Hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwylio (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â Deb Smith, Refeniw a Budd-daliadau, 01495 742359, deb.smith@Torfaen.gov.uk

Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd CF10 2HH, Ffôn 0330 414 6421 neu e-bost Wales@ico.org.uk